**<u>YN YMCHWILIAD COVID-19 Y DU</u>**

**Gerbron y Gwir Anrhydeddus Farwnes Hallett, D.B.E.**

---

**MODIWL 2**
**DATGANIAD AGORIADOL LLYWODRAETH CYMRU**

---

**Cyflwyniad**

1. Bydd Modiwl 2 yn edrych ar brosesau gwneud penderfyniadau gweinyddol a gwleidyddol craidd y Deyrnas Unedig mewn ymateb i Covid-19. Yn ddiymwad, mae'r pwnc hwn o bwysigrwydd sylfaenol er mwyn deall pa mor effeithiol y bu ymateb Llywodraeth y DU i'r pandemig. Fel y dywedodd ar y dechrau, mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymrwymedig i roi pob cymorth i'r Ymchwiliad.

2. Mae pwysigrwydd y Modiwl hwn yn amlwg ond, wrth i'w waith ddechrau, mae'n werth ailddatgan pam. Fel y dywedodd Prif Weinidog Cymru:[1]

> "*The pandemic touched the lives of everyone: my own, my colleagues, our communities, but none more so than the many families who lost loved ones. I want to acknowledge this loss at the outset of this statement, just as I have in my previous statements and take this opportunity to express my personal sympathies and sincere condolences, to those affected, and to all who sadly lost loved ones, across the nations. The pain and sadness of their losses will last a lifetime and I will continue to recognise this at every opportunity. Sadly, too many families have lost loved ones. This cruel virus has stolen lives and it has left their loved ones with questions, which they rightly want answered. I would also like to take an opportunity to recognise the suffering of those who continue to live with the debilitating after-effects of the virus. We continue to learn not only of the impacts on our health but on our society as whole. I, and the Welsh Government, are committed and will remain committed to this Inquiry and to learn lessons for the future*."

3. Mae ystyried effeithiolrwydd ymateb Llywodraeth y DU yn ymarfer cymhleth. Gan fod y setliadau datganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi hen ymsefydlu ers bron i chwarter canrif, rhaid gwneud mwy na chynnal ymarfer bras i nodi'r ymateb ledled y DU a chymharu penderfyniadau'r llywodraethau datganoledig â hwnnw. Nid Lloegr yw'r meincnod

---

[1] Drakeford, datganiad 1[af], §1 [**INQ000273747**].

y dylid beirniadu penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'r llywodraethau datganoledig eraill yn ei erbyn. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, wrth gwrs.

4. Felly, mae datganiad y Cadeirydd bod gwerth amlwg i asesu prosesau gwneud penderfyniadau yn y pedair gwlad a'r rhyngweithio rhyngddynt wedi tawelu meddwl Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, yn benodol, yn croesawu'r cadarnhad a gafwyd gan y Cadeirydd ei bod ar hyn o bryd yn bwriadu cyhoeddi un adroddiad sy'n ystyried y prosesau gwneud penderfyniadau yn y pedair llywodraeth ar ôl ystyried y dystiolaeth ym modiwlau 2, 2A, 2B a 2C.[2]

5. Un o fanteision dull arfaethedig y Cadeirydd yw y bydd yn adlewyrchu'r modd y mae llywodraeth yn y DU yn gweithio. Wrth ymateb i'r pandemig, roedd gan y pedair llywodraeth, i raddau helaeth, eu pwerau a'u cyfrifoldebau eu hunain. Gan arfer y pwerau hyn, gwnaethant benderfyniadau a oedd er lles pennaf eu cenedl, yn eu barn nhw. Os ydym wedi deall y Cadeirydd yn gywir, bydd yr Ymchwiliad yn ymchwilio i'r modd y gwnaeth pob llywodraeth benderfyniadau ar ran y bobl yr oedd yn eu gwasanaethu a'u heffeithiolrwydd yn hytrach na sut a pham roedd ei phenderfyniadau'n wahanol i rai Llywodraeth y DU. Mae pa mor dda y gweithiodd y llywodraethau gyda'i gilydd, effeithiolrwydd y cydberthnasau hynny ac, yn benodol, eu heffaith ar allu'r llywodraethau datganoledig i ymateb i'r pandemig yn rhan o'r cwestiwn ehangach hwnnw.

6. Mae Prif Weinidog Cymru wedi darparu dau ddatganiad ar gyfer Modiwl 2 y mae'n gobeithio y byddant yn cyfrannu at waith yr Ymchwiliad.[3] Hoffai Mr Drakeford hefyd ailadrodd, yn gyhoeddus, ei gynnig i roi tystiolaeth lafar yn y Modiwl hwn fel y gall ei safbwyntiau fel pennaeth llywodraeth gael eu clywed ac, yn bwysig, eu hystyried. Gŵyr Llywodraeth Cymru y bydd gwaith yr Ymchwiliad yn dilyn y dystiolaeth. Dyna pam, o ystyried y materion a gaiff eu hystyried fel rhan o'r Modiwl a'r modd y caiff y DU fodern ei llywodraethu, ein bod yn gobeithio y bydd y Cadeirydd yn rhoi ystyriaeth bellach i'r penderfyniad i beidio â galw am dystiolaeth gan benaethiaid y llywodraethau datganoledig yn y Modiwl hwn. Byddant hwy yn darparu safbwynt amhrisiadwy ar brosesau gwneud penderfyniadau craidd yn y DU, a hebddo mae perygl na chaiff y darlun cyflawn a chymhleth o drefniadau llywodraethu ei weld ac y caiff cyfle i wneud diwygiadau mawr eu hangen ei golli.

[2] Diweddariad Modiwl 2 (Awst 2023), §30.
[3] [**INQ000273747**].

**Safbwynt Llywodraeth Cymru**

7. Hoffai Llywodraeth Cymru wahodd y Cadeirydd i ystyried tri mater penodol ym Modiwl 2 (yn ddelfrydol ar ôl clywed tystiolaeth gan Brif Weinidog Cymru):

   (a) Natur, graddau ac amseriad ymwneud Llywodraeth y DU â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gosod a llacio ymyriadau anfferyllol. Yn benodol, p'un a gafodd cyfleoedd ar gyfer gwaith rhynglywodraethol effeithiol eu colli ac, os felly, i ba raddau;
   (b) Y trefniadau cyllido a oedd yn llywodraethu'r ymateb i argyfyngau sifil rhwng y Trysorlys a'r llywodraethau datganoledig; ac
   (c) Realiti a manteision prosesau gwneud penderfyniadau datganoledig effeithiol.

*Natur y cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru*

8. Hyd at fis Mai 2020, roedd Prif Weinidog y DU ar y pryd yn ymgysylltu â Phrif Weinidogion y llywodraethau datganoledig drwy COBR. Fodd bynnag, ym mis Mai 2020, penderfynodd Llywodraeth y DU, yn unochrol, aildrefnu strwythurau pwyllgor ei Chabinet. Yn eu lle, cynhaliwyd cyfarfodydd Covid-S (strategaeth) a Covid-O (gweithrediadau) i adlewyrchu'r strwythurau a fabwysiadwyd fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Brexit.[4]

9. Fodd bynnag, fel yr eglurodd Prif Weinidog Cymru,[5] yn ystod proses Brexit gweithiodd Llywodraeth y DU gyda'r llywodraethau datganoledig drwy gyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, a oedd yn system a weithiodd yn dda.

10. Pan fabwysiadwyd Covid-S a Covid-O gan Boris Johnson ym mis Mai 2020, derbyniodd y dylai barhau i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig drwy gyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion.[6] Yn ddiymwad, mae'n anffodus na chafodd unrhyw gyfarfodydd o'r fath eu cynnal rhwng Prif Weinidog y DU a Phrif Weinidogion y llywodraethau datganoledig ar ôl yr aildrefnu,[7] er gwaethaf ceisiadau rheolaidd gan Brif Weinidog Cymru i wneud hynny.[8]

[4] Case, datganiad, §5.39 [**INQ000092893**].
[5] Drakeford, 2[il] ddatganiad, §18.
[6] Johnson, datganiad, §368 [**INQ000255836**].
[7] Johnson, datganiad, §370 [**INQ000255836**].
[8] Drakeford, 2[il] ddatganiad, §18.

11. Am nad oedd COBR yn weithredol ac am na chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion, prin fu'r rhyngweithio uniongyrchol rhwng Boris Johnson a Phrif Weinidogion y llywodraethau datganoledig o fis Mai 2020 ymlaen. O ystyried maint y pandemig a'r angen amlwg am gydweithio agos rhwng y pedair gwlad, dylid bod wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd, dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog y DU, a oedd yn rhoi darlun o ddigwyddiadau ledled y DU. Mae Prif Weinidog Cymru yn glir o'r farn bod y methiant i drefnu cyfarfodydd o'r fath wedi cael effaith andwyol ar y canlyniad i'r cyhoedd.[9]

12. Yn lle hynny, gwahoddwyd y llywodraethau datganoledig i gyfarfodydd Covid-O lle, yn amlach na pheidio, y caent wybod am benderfyniad a oedd eisoes wedi cael ei wneud ac, unwaith eto, yn amlach na pheidio, y câi unrhyw bryderon a godwyd gan y llywodraethau datganoledig eu diystyru. Er tegwch, mae Michael Gove a Boris Johnson ill dau bellach wedi cydnabod natur anfoddhaol y trefniadau hyn.[10]

13. Rheswm Boris Johnson dros beidio â chyfarfod â Phrif Weinidogion y llywodraethau datganoledig oedd ei gred na ddylai gael ei weld yn gwneud hynny er mwyn osgoi rhoi'r argraff bod y DU yn wladwriaeth ffederal.[11] Nid oedd ei bryder ynglŷn â sut roedd pethau'n edrych yn cydnabod nac felly yn cyfateb i raddfa'r digwyddiadau a oedd yn wynebu'r pedair gwlad. Fel adlewyrchiad o agwedd Llywodraeth y DU at gydweithio agos ac effeithiol rhwng y pedair llywodraeth, mae'r dystiolaeth hon yn adrodd cyfrolau.

14. Agwedd bwysig ar gydweithio effeithiol yw cyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, pan roedd y pedair llywodraeth yn ystyried llacio'r cyfyngiadau ac er gwaethaf ceisiadau mynych gan Brif Weinidog Cymru, ni chafwyd cyfarfodydd rheolaidd er mwyn dod i ddealltwriaeth gyffredin.[12]

15. Nodwedd anfoddhaol arall oedd methiant Llywodraeth y DU i ymgynghori, neu o leiaf ymgynghori'n ystyrlon, â'r llywodraethau datganoledig. Yn rhy aml, gwnaeth Llywodraeth y DU benderfyniadau am ymyriadau anfferyllol heb roi unrhyw rybudd neu rybudd digonol i'r llywodraethau datganoledig.[13] Yn ogystal, gwnaeth Llywodraeth y DU benderfyniadau

---

[9] Drakeford, datganiad 1[af], §§ 97, 105, 123, 157 a 196 [**INQ000273747**]; 2[il] ddatganiad, §§17-19.

[10] Gove, datganiad, §§173-174 [**INQ000259848**]; Johnson, datganiad, §191 [**INQ000255836**]; Drakeford, 2[il] ddatganiad, §28.

[11] Johnson, datganiad, §188 [**INQ000255836**].

[12] Drakeford, datganiad 1[af], §§ 15, 72-73, 77, 81, 84, 95, 97, 99 a 124 [**INQ000273747**].

[13] Drakeford, datganiad 1[af], §§ 63, 82, 109 a 111 [**INQ000273747**].

unochrol i lacio'r gofynion o ran teithio rhyngwladol, sy'n faes lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli, ac effaith hyn yn ymarferol oedd y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru fabwysiadu'r un safbwynt yn anfoddog. Yn realistig, ni allai fabwysiadu'r safbwynt gorau i fynd i'r afael â'r sefyllfa yng Nghymru am fod y rhan fwyaf o'r dulliau teithio rhyngwladol i Gymru yn dod drwy Loegr.[14]

*Trefniadau cyllido rhwng y Trysorlys a'r llywodraethau datganoledig*

16. Er bod gan y llywodraethau datganoledig gyfrifoldeb uniongyrchol am ymateb i bandemig, nid oes ganddynt bob amser y cyllid i gefnogi penderfyniadau os oes angen mwy o gyllid na'r hyn a ddarperir drwy gyllid canlyniadol Barnett. Mae'r Trysorlys yn gweithredu ar y sail, pan fo Llywodraeth y DU yn dymuno rhoi polisi ar waith yn Lloegr, y caiff cyllid canlyniadol ei ddarparu i'r llywodraethau datganoledig. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn gweithio am yn ôl.

17. Caiff cyfyngiadau'r trefniadau cyllido hyn eu hamlygu gan y trafodaethau a arweiniodd at y cyfnod atal byr yng Nghymru ym mis Hydref 2020. Roedd disgwyl i'r Cynllun Cefnogi Swyddi ddechrau ar 1 Tachwedd 2020. Yn sgil penderfyniad mewn egwyddor Cabinet Cymru i gyflwyno cyfnod atal byr yng Nghymru, gofynnodd Prif Weinidog Cymru i Ganghellor y Trysorlys ddechrau'r cynllun yn gynt yng Nghymru. Cafodd y cais ei wrthod.

18. Caiff effaith y penderfyniad hwnnw ar allu Llywodraeth Cymru i gymryd y camau yr oedd eu hangen yn ei barn hi, ei hegluro'n rymus gan Brif Weinidog Cymru:[15]

> "*On 23 October 2020 the Welsh Firebreak came into effect. Had we had the confidence that the UK Government would provide the money needed to support people during the firebreak we probably would have implemented the lockdown sooner. However, it was hard for Wales to take the initiative because that meant we had to take the decision without financial support provided by the UK Government. Nevertheless, I felt strongly that we needed to implement the fire break to delay the spread of the virus, because that was what the science was telling us.*
> ...
> *The Chancellor of the Exchequer refused to fund the consequences of a public health decision taken in Wales. That decision was, in my view, one of the most misguided decisions of the whole pandemic. It demonstrated that the four nations of the UK were to be treated differently by HM Treasury. It was, in effect, acting as a Treasury for England, not a Treasury for the UK. This was vividly illustrated when, within a few days of the Welsh firebreak a similar set of measures were adopted for England. Funds to*

[14] Drakeford, datganiad 1[af], §§ 160, 162, 172 a 182 [**INQ000273747**].
[15] Drakeford, datganiad 1[af], §§136 a 139 [**INQ000273747**].

> *support that cause of action were then released by the UK Treasury. Those funds extended to Wales, but only because of decisions taken in response to the public health position in England, not because of the public health needs in Wales*."

19. Er ei fod yn enghraifft arwyddocaol o'r problemau a allai gael eu hachosi gan y trefniadau cyllido presennol, yn anffodus, nid cyllido'r cyfnod atal byr oedd yr unig enghraifft.[16] Mae'r mater heb ei ddatrys o hyd.

*Realiti a manteision prosesau gwneud penderfyniadau datganoledig effeithiol*

20. Yn COBR ar 26 Chwefror 2020, penderfynodd Llywodraeth y DU nad Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ("**Deddf 2004"**) oedd y cyfrwng priodol er mwyn ymateb i'r pandemig.[17] Os oedd digon o amser i basio deddfwriaeth arall y gallai Senedd y DU graffu arni, dylid gwneud hynny Eglurodd Roger Hargreaves, Cyfarwyddwr COBR, y gellid bod wedi defnyddio Deddf 2004 oherwydd y brys, ond penderfynodd Llywodraeth y DU gyflwyno Bil y Coronafeirws er mwyn caniatáu i Senedd y DU graffu ar y ddeddfwriaeth, ac am fod yn rhaid adolygu Deddf 2004 o fewn saith diwrnod a phob 30 diwrnod wedi hynny a oedd yn creu ansicrwydd.[18]

21. Dywed Boris Johnson, o edrych yn ôl, fod dadl gref y dylai Llywodraeth y DU fod wedi defnyddio Deddf 2004.[19] Unwaith eto, o edrych yn ôl, dywedodd fod y dadleuon yn erbyn defnyddio'r Ddeddf yn wan ac y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael lefel uwch o waith adolygu seneddol.[20] Pan wnaed y penderfyniad hwn, rhagwelodd Prif Weinidog Cymru y byddai Bil y Coronafeirws yn "*mirror the essential scheme of the Civil Contingencies Act and that the primary decision-making power would remain with the UK Government, to be implemented by the devolved governments*".[21]

22. Ar 20 Mawrth 2020, penderfynodd Llywodraeth y DU ddefnyddio Deddf Diogelu Iechyd (Rheoli Clefydau) 1984 ("**Deddf 1984**") fel y sail ddeddfwriaethol dros ymateb i'r pandemig.[22] Tystiolaeth Prif Weinidog Cymru oedd nad oedd yn glir, pan wnaed y penderfyniad hwn, fod Llywodraeth y DU yn llwyr werthfawrogi'r graddau y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud wedyn gan y llywodraethau datganoledig. Ni all Mr Drakeford gofio unrhyw drafodaeth gynnar

---

[16] Drakeford, datganiad 1[af], §§ 124, 141 a 181 [**INQ000273747**].
[17] [**INQ000056216**].
[18] Hargreaves, datganiad, §§8.19-8.21 [**INQ000145912**].
[19] Johnson, datganiad, §126 [**INQ000255836**].
[20] Johnson, datganiad, §155 [**INQ000255836**].
[21] Drakeford, datganiad 1[af], §23 [**INQ000273747**].
[22] [**INQ000056212**].

ynghylch y posibilrwydd y byddai defnyddio Deddf 1984 yn arwain at bwerau'n cael eu harfer mewn ffyrdd gwahanol mewn gwahanol rannau o'r DU. Ar ôl i Lywodraeth y DU benderfynu defnyddio pwerau diogelu iechyd, roedd dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau hyn i ddiogelu Cymru yn ystod y pandemig.[23]

23. Wrth lunio rheoliadau, roedd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r llywodraethau datganoledig ystyried yn annibynnol y cyngor gwyddonol a meddygol ar gyfer eu gwledydd, a chymesuredd y rheoliadau. Nid oedd modd mabwysiadu'n ddifeddwl y rheoliadau a wnaed ar gyfer Lloegr am fod y cyfraddau trosglwyddiadau yng Nghymru a Lloegr yn wahanol am gyfran helaeth o'r pandemig. Wedi deall hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y term 'ymwahanu' neu '*divergence*' yn Saesneg yn gamarweiniol. O'r dechrau, gwnaed penderfyniadau'n annibynnol.

24. Fodd bynnag, mae manteision diamheuol i gysondeb. Cytunwyd ar hynny lle y bo'n bosibl. Ond cydnabuwyd hefyd, hyd yn oed os oedd y cyfeiriad teithio yr un peth, y byddai gwahaniaeth o ran cyflymder a gweithredu yn unol â'r cyngor gwyddonol.[24]

25. Mae cyn-weinidogion a gweinidogion presennol yn Llywodraeth y DU yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng y pedair gwlad o ran dull, cyflymder a phwyslais yn rhesymol. Er enghraifft, mae Boris Johnson yn datgan nad oedd buddiannau'r llywodraethau datganoledig bob amser yr un fath â rhai Lloegr a bod hynny'n rhan anochel o system ddatganoledig.[25] Dywed y cyn Brif Weinidog hefyd ei fod yn deall pam bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r cyfnod atal byr o ystyried bod digwyddedd y feirws yn cynyddu yng Nghymru ac nad oedd y drefn haenau wedi gweithio'n dda.[26] Ar 28 Mai 2020, dywedodd Mr Johnson wrth Brif Weinidogion y llywodraethau datganoledig ei fod yn llwyr werthfawrogi'r ffyrdd gwahanol roedd y llywodraethau datganoledig yn ymateb yn seiliedig ar gyfraddau trosglwyddiadau gwahanol ac y byddai'n cyfleu hynny'n glir.[27]

26. Mae Michael Gove yn cydnabod bod Llywodraeth y DU, ym mis Mai 2020, wedi derbyn bod angen i fesurau newid mewn ffyrdd gwahanol ar adegau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r DU.[28] Dywed Mr Gove, a hynny'n deg, ei fod yn deall y rheswm dros y cyfnod atal byr yng

[23] Drakeford, datganiad 1af, §54 [**INQ000273747**].
[24] [**PA-00004468**]; Drakeford, datganiad 1af, §§90-91 a 145 [**INQ000273747]**.
[25] Johnson, datganiad, §191 [**INQ000255836**].
[26] Johnson, datganiad, §519 [**INQ000255836**].
[27] Drakeford, datganiad 1af, §102 [**INQ000273747**].
[28] Gove, datganiad, §61 [**INQ000259848**].

Nghymru ac nad oedd wedi ceisio darbwyllo Llywodraeth Cymru rhag cymryd y cam hwnnw am ei fod yn ymwybodol bod y mesur wedi bod o dan ystyriaeth am gryn amser.[29] Mae'n cydnabod hefyd mai diben datganoli yw caniatáu i rannau gwahanol o'r DU deilwra penderfyniadau yn unol ag anghenion lleol a'i bod yn rhesymol i'r llywodraethau datganoledig wneud y penderfyniadau a oedd yn angenrheidiol yn eu barn nhw ar gyfer yr amgylchiadau gwahanol yn eu gwledydd.[30]

27. Fodd bynnag, mae Boris Johnson[31] a Michael Gove[32] ill dau yn dadlau bod prosesau gwneud penderfyniadau datganoledig wedi arwain at anawsterau cyfathrebu a oedd, yn eu tro, wedi peri dryswch i'r cyhoedd. Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried y dystiolaeth hon a thystiolaeth Gweinidogion a swyddogion o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn llunio barn mor wybodus â phosibl. Gall fod yn berthnasol ystyried bod absenoldeb neges glir gan Lywodraeth y DU mai i Loegr yn unig yr oedd ei mesurau yn berthnasol wedi cyfrannu'n fwy sylweddol at unrhyw ddryswch ymhlith y cyhoedd.[33]

28. Mae Boris Johnson a Michael Gove ill dau yn hawlio, os byddwn yn wynebu bygythiad tebyg yn y dyfodol, y dylai Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Awgryma Boris Johnson y dylai'r DU gael ei thrin fel un uned epidemiolegol, ac mai'r dull gorau i'w ddefnyddio yw dull ar gyfer y DU gyfan heb wahaniaethau rhwng y pedair llywodraeth.[34] Mae Michael Gove yn adleisio'r ddadl honno. Dywed y dylai Llywodraeth y DU allu gweithredu ledled y DU ac y dylai ei phwerau *back-stop* gael eu hatgyfnerthu am mai un o wendidau'r setliad datganoli yw na chafodd unrhyw bwerau allweddol eu cadw yn ôl ar gyfer Llywodraeth y DU mewn argyfwng.[35]

29. Nid yw'r dadleuon hyn yn gydnaws â'u safbwyntiau ystyriol ei bod yn rhesymol i'r llywodraethau datganoledig wneud penderfyniadau yn seiliedig ar yr amgylchiadau gwahanol ym mhob gwlad. Roedd y sectorau yr effeithiodd yr argyfwng iechyd cyhoeddus arnynt fwyaf (y GIG yng Nghymru; addysg; gofal cymdeithasol a llywodraeth leol) wedi cael eu datganoli ers dros 20 mlynedd pan darodd Covid-19. Nid oedd yr un o'r sectorau hyn wedi bod o dan

[29] Gove, datganiad, §106 [**INQ000259848**].
[30] Gove, datganiad, §§171 a 184 yn y drefn honno [**INQ000259848**].
[31] Johnson, datganiad, §§126 a 156 [**INQ000255836**].
[32] Gove, datganiad, §§171 a 177 [**INQ000259848**].
[33] Adroddiad yr Athro Ailsa Henderson, §§ 151 a 153 [**INQ000269372**].
[34] Johnson, datganiad, §§496 a 529 yn y drefn honno [**INQ000255836**].
[35] Gove, datganiad, §§176 a 188 yn y drefn honno [**INQ000259848**].

reolaeth Whitehall ers dros ddau ddegawd ac roedd pob un ohonynt yn gweithredu o dan drefniadau deddfwriaethol, polisi a chyllido gwahanol i Loegr a gweddill y DU. Roedd Llywodraeth y DU yn anghyfarwydd â'r trefniadau hynny ac felly camsyniad yw meddwl y gallai llywodraeth ganolog gymryd drosodd a gwneud penderfyniadau dros Gymru.

30. Byddai dychwelyd i arfer pŵer canoledig yn gwadu budd clir datganoli, sef y rhyddid i wneud penderfyniadau er mwyn mynd i'r afael â'r amgylchiadau penodol yn y gwledydd datganoledig. Yn hynny o beth, mae'n nodedig, o ganlyniad i'w brofiad yn ystod y pandemig, na chafodd Dominic Raab ei argyhoeddi y dylai prosesau gwneud penderfyniadau gael eu canoli am fod manteision i drefn lle roedd y llywodraethau datganoledig yn gwneud penderfyniadau anodd ac yn gweithio gyda Llywodraeth y DU.[36]

**Casgliad**

31. Fel y cyflwynodd Llywodraeth Cymru yn gynt, mae edrych ar brosesau gwneud penderfyniadau, o reidrwydd, yn ymarfer cymhleth a manwl. Realiti trefn lywodraethu fodern y DU yw nad yw'r dull a ddefnyddiwyd yn Lloegr yn darparu'r safon y dylid ei defnyddio er mwyn beirniadu'r penderfyniadau a wnaed yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd, nid yw'r llywodraethau datganoledig yn gosod y meincnod i'w ddefnyddio er mwyn asesu'r penderfyniadau a oedd yn gymwys i Loegr.

32. Rhaid canolbwyntio ar y modd y gwnaeth pob llywodraeth benderfyniadau ar ran y bobl yr oedd yn eu gwasanaethu ac effeithiolrwydd y penderfyniadau hynny. Mae pa mor dda y gweithiodd y llywodraethau gyda'i gilydd, effeithiolrwydd cydberthnasau rhynglywodraethol a'u heffaith ar allu'r llywodraethau datganoledig i ymateb i'r pandemig yn rhan o'r cwestiwn ehangach hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru'n edrych ymlaen at gyfrannu at waith yr Ymchwiliad a'i gefnogi. Mae'r Modiwl hwn yn rhoi cyfle unigryw a gwerthfawr i asesu'n feirniadol, ond yn deg, sut mae cydberthnasau rhynglywodraethol yn gweithio ac i wneud argymhellion i'w gwella. I'r perwyl hwnnw ac er mwyn sicrhau bod gan yr Ymchwiliad y darlun mwyaf cyflawn posibl, mae Llywodraeth Cymru'n ailadrodd cynnig Prif Weinidog Cymru i roi tystiolaeth fel rhan o Fodiwl 2 a chael ei holi am ei brofiad o brosesau gwneud penderfyniadau yn ystod y pandemig.

[36] Raab, datganiad, §230 [**INQ000268041**].

**Modiwl 2 – Datganiad Agoriadol Llywodraeth Cymru**

**Dyddiedig 26 Medi 2023**